**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

29 Mehefin 2023

Annwyl Elin

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Ynni ('y Bil') i Senedd y DU, Tŷ'r Arglwyddi, ar 6 Gorffennaf 2022. Cafodd taith y Bil ei hatal am gyfnod, cyd iddo ailgychwyn ar ei daith ar ddiwedd 2022, a disgwylir i nifer o welliannau llywodraeth gael eu cyflwyno yn ystod camau olaf taith y Bil drwy Senedd y DU.

Yr amcanion polisi mae Llywodraeth y DU wedi'u datgan yw helpu i gynyddu cadernid a dibynadwyedd systemau ynni ledled y DU, cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau'r DU mewn perthynas â newid hinsawdd a diwygio system ynni'r DU, wrth leihau costau i ddefnyddwyr cymaint ag y bo modd a'u hamddiffyn rhag prisiau annheg.

Mae'r Bil yn gymhleth, mae ei gwmpas yn eang ac mae'n cyflwyno nifer o gyfundrefnau rheoleiddio sylweddol i ddeddfwriaeth – yn benodol ym meysydd cludo a storio carbon deuocsid a hydrogen. Mae'r Bil yn seiliedig ar dair egwyddor: ysgogi buddsoddiadau mewn technolegau glân; trawsnewid system ynni'r DU a diogelu cwsmeriaid; a chynnal diogelwch, dibynadwyedd a chadernid y system ynni ledled y DU. Mae hyd a chymhlethdod y Bil wedi arwain at yr angen am ddadansoddiadau hir a manwl o'r polisi a'r safbwynt cyfansoddiadol.

Mae nifer fawr o'r pwerau sy'n gysylltiedig â pholisi ynni wedi'u cadw'n ôl. Fodd bynnag, o ystyried cymhlethdod pwerau a gedwir yn ôl a phwerau datganoledig, bydd angen cydsyniad mewn nifer o feysydd. Mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i leisio pryderon nad yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn parchu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, na chyfrifoldebau datganoledig Gweinidogion Cymru, ac y dylai Llywodraeth y DU geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar gymhwysedd datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell gwrthod rhoi cydsyniad ar gyfer y cymalau perthnasol ar yr adeg hon, a gosodais y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 29 Mehefin 2023.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n sylweddoli bod y dyddiad cau arferol ar gyfer gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog wedi hen fynd heibio. Bu hyn yn rhannol oherwydd y ffordd mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r Bil, ond hefyd oherwydd cymhlethdod y materion sy'n cael eu hystyried. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymdrin â'r Bil fel y cafodd ei gyflwyno. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, rydym yn ymwybodol o welliannau a wnaed wedyn, ac rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU wneud rhagor o newidiadau i'r Bil wrth i Dŷ'r Arglwyddi barhau i'w ystyried. O ganlyniad, bydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol, a fydd yn cael ei osod cyn gynted at y bo modd. Disgwylir i'r Bil symud drwy gamau olaf Senedd y DU, ac ni ddisgwylir i Gyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin gael ei gynnal cyn 13 Gorffennaf 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, Lesley Griffiths AS, a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad,
Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change